Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**
**Perfformiad yr Heddlu: Cael Gafael ar y Sefyllfa**

Yr wyf yn gwbl gefnogol ac ymwybodol o'r angen i heddluoedd gael dealltwriaeth aeddfed a yrrir gan ddata o'r ffordd y mae eu penderfyniadau gweithredol yn effeithio ar y ffordd maen nhw'n cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-25 yn nodi mesurau llwyddiant clir ac rwy'n gofyn byth a hefyd i'r Prif Gwnstabl ddarparu tystiolaeth yn eu herbyn.

Isod, yr wyf yn nodi fy syniadau a'r sicrwydd yr wyf wedi'i dderbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r tri argymhelliad o fewn yr adroddiad sy'n berthnasol ar gyfer heddluoedd.

**2: Lleihau'r perygl y bydd personél medrus yn gadael y gweithlu.**

Fel Cadeirydd Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a chyn Brif Ddadansoddwr, yr wyf wedi tynnu sylw droeon at fy mhryder mewn perthynas â'r angen dybryd i fynd i'r afael â'n prinder cyfunol o ddadansoddwyr. Mae'r prinder hwn yn cael ei yrru gan sawl ffactor, gan gynnwys anawsterau o ran recriwtio a chadw unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, yn ogystal â'r cyfyngiadau a osodir ar heddluoedd drwy'r cyllid ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer swyddogion rheng flaen. Er bod yr arian ychwanegol yn cael ei groesawu, mae angen hyblygrwydd ar heddluoedd i ymgymryd â recriwtio cytbwys, gan alluogi buddsoddi digonol yn yr arbenigeddau sydd eu hangen yn lleol.

Yr wyf wedi fy sicrhau bod gan Strategaeth Les Heddlu Dyfed-Powys ffocws clir ar gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys Strategaeth a Pholisi Cadw. Mae gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n cynnwys cyfweliadau 'aros' a 'gadael' a gynhelir gan swyddogion AD a Swyddog Lles a Chadw o fewn y tîm Dysgu a Datblygu. Cesglir a dadansoddir gwybodaeth a geir drwy gyfweliadau gadael er mwyn hysbysu gweithgareddau lles a gweithlu'r dyfodol. Cynhelir arolygon peryglon cadw ddwywaith y flwyddyn er mwyn cefnogi Penaethiaid Adran i nodi meysydd lle y gallai fod angen ymyrryd er mwyn annog personél medrus i aros. Mae 'arbenigwr pobl' o fewn y tîm perfformiad hefyd yn cefnogi nodi rolau hollbwysig y mae angen eu llenwi ar unwaith. Maen nhw hefyd yn sicrhau yr ystyrir trosglwyddo a hyfforddiant wrth gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae'r Strategaeth Lles hefyd yn nodi'r cynllun gweithredu ar gyfer rhaglen arweinyddiaeth newydd y Coleg Plismona a'r ffordd y bydd yn cael ei gyflwyno i oruchwylwyr llinell gyntaf.

Byddaf yn gofyn i'r Heddlu roi diweddariad imi ym mis Ionawr 2024 ynglŷn â pha un ai a yw'r ymyriadau hyn yn profi'n llwyddiannus o ran cadw personél medrus.

**3: Cymorth lles rhagweithiol ar gyfer swyddogion a staff mewn sefyllfaoedd a rolau straen uchel.**

Yn ogystal ag amryw o gymorth lles ymatebol sydd ar gael i bob aelod staff, mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnig cymorth rhagweithiol ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod mewn swyddi straen uchel. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n gweithio yn y maes fforensig, y maes arfau saethu, rolau cudd, a'r rhai sy'n gweithio'n agos â dioddefwyr. Mae personél sy'n newydd i'r swyddi hyn yn cael eu sgrinio gan yr adran iechyd galwedigaethol i gael eu clirio ar gyfer ymgymryd â'r swydd. Mae gan yr adran Iechyd Galwedigaethol amserlen ar gyfer sgrinio'r holl bersonél sydd mewn swyddi straen uchel hefyd. Mae hyn yn cynnwys arolygon sgrinio

seicolegol wedi'u dilyn gan alwad ffôn neu apwyntiad gyda Chwnsler yr Heddlu. Mae'n orfodol cymryd rhan gan fod y broses yn nodi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen, neu unrhyw bryderon a allai arwain at gliriad ar gyfer y swydd yn cael ei dynnu'n ôl. Mae gwybodaeth a geir drwy holiaduron seicolegol yn cael ei hadolygu a'i thrafod yng nghyfarfod chwarterol Grŵp Arweinyddiaeth a Lles yr Heddlu a'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg er mwyn nodi unrhyw batrymau a allai fod angen gweithredu pellach.

Yn ddiweddar, buddsoddodd yr Heddlu mewn system rheoli cleifion newydd a fydd yn gwella amserlennu a rheoli'r broses. Mae'r adran Iechyd Galwedigaethol hefyd wedi ehangu ei gallu yn ddiweddar, gyda chwnsela ychwanegol, ymgynghorydd meddygol ac adnoddau ffisiotherapi wedi'u sefydlu. Mae dangosfwrdd perfformiad iechyd galwedigaethol a lles wrthi'n cael ei greu. Byddaf yn gofyn am gael ei weld ym mis Ionawr 2024 i bennu pa un ai a yw'r cymorth targedig hwn yn effeithiol o ran hyrwyddo lles personél.

**6: Sicrhau bod casglu, dadansoddi a gwerthuso data'n arwain at wella perfformiad.**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi buddsoddi yn ei allu i reoli perfformiad. Bu ffocws ar roi gwybodaeth reoli i arweinwyr adran a goruchwylwyr rheng flaen i gefnogi monitro o ddydd i ddydd. Yn ddiweddar, adolygodd yr Heddlu ei gyfres o ddangosfyrddau sydd angen eu hailadeiladu o ganlyniad i weithredu'r system rheoli cofnodion Niche. Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd y gwaith hwn yn cael ei yrru gan Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yr Heddlu, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr Heddlu'n casglu'r data cywir i ddangos tystiolaeth o berfformiad yn erbyn Asesiad o Wasanaethau Dioddefwyr yr Arolygiaeth. Mae'r dangosfwrdd cyntaf (ar gyfer Cam-drin Domestig) wedi'i greu ac mae'n cael ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer meysydd busnes eraill.

Yr wyf wedi trefnu ffocws ar reolaeth perfformiad yr Heddlu mewn cyfarfod o'm Bwrdd Plismona ym mis Hydref. Yn y cyfarfod hwn, byddaf yn gofyn i'r Prif Gwnstabl am sicrwydd ynghylch amserlen gyflwyno'r Heddlu yn erbyn y Fframwaith Rheoli Perfformiad. Byddaf yn edrych am oruchwyliaeth strategol o berfformiad yr heddlu cyfan, yn ogystal â thystiolaeth bod yr effaith ar gyflenwi gwasanaethau, bygythiad, perygl a niwed yn cael ei chydnabod a'i hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau.